# Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

## Brîff Prosiect – Rhagfyr 2019

North Wales Together
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
Seamless services for people with Learning Disabilities
Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu



- Helo gan Kathryn Whitfield
- Mae'r prosiect wedi bod ar fynd am 6 mis!
- Gobeithiwn y bydd pobl eisiau ein helpu ni gyda'r gwaith rydyn ni'n ei wneud

- Gallwch ein dilyn ni ar Facebook ar

[www.facebook.com/LDTransformationInfo](www.facebook.com/LDTransformationInfo)

- Gallwch ein dilyn ni ar Twitter ar

[www.twitter.com/TogetherYnghyd](www.twitter.com/TogetherYnghyd)



- Mae Charlie yn newydd yn y tîm
- Mae Charlie yn ein helpu ni i adeiladu ein gwefan
- Y wefan yw **[www.northwalestogether.org](http://www.northwalestogether.org)**
- Gobeithio y bydd hi'n barod yn Ionawr 2020



- Mae Paul Mazurek yn edrych ar dechnoleg a allai helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol
- Byddwn yn cynnal diwrnod i ddangos technoleg y gall pobl ei defnyddio
- Rydyn ni'n gobeithio creu ystafell arddangos yn Wrecsam
- Anfonwch e-bost at Paul.Mazurek@flintshire.gov.uk os ydych chi eisiau gwybod mwy



- Mae Paul Hosker yn gweithio gyda'r tîm yn Iechyd i geisio gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu prawf iechyd blynyddol
- Mae Paul wedi bod yn ceisio helpu meddygon ar Ynys Môn i wneud y broses o gael prawf iechyd yn haws
- Mae Charlie yn ein helpu i ddylunio gwefan ar gyfer gwiriadau iechyd



- Mae Sian wedi bod yn gweithio gyda dinasyddion, teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i greu gwerthoedd ar y cyd

- Dywedodd pobl wrthym ni am

  - Fy nhrin yn dda
  - Gadael imi reoli fy mywyd fy hun
  - Helpu fi i gyrraedd fy mhotensial
  - Bod yn onest bob amser

  - Gallwch anfon e-bost at [Sian.croston@flintshire.gov.uk](mailto:Sian.croston@flintshire.gov.uk) os ydych chi eisiau dysgu mwy neu ddweud eich barn wrthi.

  - Ym mis Hydref, fe gawsom ni ddigwyddiadau

CEFNOGAETH WEITHREDOL GOGLEDD CYMRU CYMUNED YMARFER
NORTH WALES ACTIVE SUPPORT COMMUNITY OF PRACTICE

  - Cawsom ddigwyddiad ar 4 Hydref 2019

  - Roedd y digwyddiad am Gefnogaeth Weithredol

  - Soniodd yr Athro Sandy Toogood am ap mae'n ei ddatblygu

  - Dywedodd pobl o Wynedd wrthym ni am y gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud

  - Fe rannodd llawer o bobl lawer o wybodaeth dda iawn





- Cawsom ddigwyddiad ddydd Llun 14 Hydref
- Roedd y digwyddiad ar gyfer yr holl bobl sy'n darparu cymorth i bobl ag Anableddau Dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- Dywedodd pobl wrthym ni beth oedd eu barn am ein cynllun
- Roedd yn ddiwrnod gwych.
  Bydd yr holl adborth o'r diwrnod ar ein gwefan yn y Flwyddyn Newydd www.northwalestogether.org



- Cawsom ddigwyddiad ddydd Iau 17 Hydref
- Roedd y digwyddiad yn trafod sut y gallwn ni helpu plant a phobl ifanc sydd ag anabledd dysgu i gyflawni beth sy'n bwysig iddyn nhw
- Fe gynlluniodd pobl ifanc o Wasanaeth Anableddau Dysgu Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych a Chonwy y diwrnod gyda ni
- Rydyn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr holl bethau ddywedodd pobl wrthym ni oedd angen newid
  Rydyn ni'n mynd i anfon yr adroddiad at bawb
- Byddwn yn rhoi'r adroddiad ar ein gwefan yn y flwyddyn newydd www.northwalestogether.org

- Mae Mesur y Mynydd yn brosiect gan Lywodraeth Cymru
- Ei bwrpas yw gweld sut beth yw bod yn ofalwr
- Mae’n helpu’r llywodraeth i ddeall sut mae pethau go iawn
- Os ydych chi eisiau rhannu stori am fod yn ofalwr, gallwch anfon e-bost ar Katie Cooke
- E-bost Katie yw Katie.cooke@southwales.ac.uk



- Dyma lun o’r tîm yn dysgu am gyd-gynhyrchu
- Cyd-gynhyrchu yw pawb yn gweithio gyda’i gilydd yn gyfartal
- Rydyn ni’n ceisio’n galed iawn i gyd-gynhyrchu yn ein tîm
- Mae Mark yn ein tîm ni’n dda iawn am wneud hynny!



- Ddydd Iau 14 Tachwedd 2019, bu’r tîm yng nghynhadledd Anabledd Dysgu Cymru
- Ar y cyd â Michelle a James, fe wnaethom gyflwyniad grŵp am gamau cyd-gynhyrchu



- Neil yw noddwr ein prosiect
- Mae Neil wedi gweithio gyda'r tîm a llawer o bobl eraill i gytuno beth ddylem ni weithio arno
- Mae Neil yn edrych ymlaen i gefnogi'r tîm wrth i ni nesáu at y Flwyddyn Newydd.
- Mae 2020 yn mynd i fod yn flwyddyn brysur iawn



- Os ydych chi eisiau cymryd rhan, gallwch ein e-bostio
- Gallwch anfon e-bost atom ni ar
Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk